Equality and Human Rights Commission
Guidance

4. Asesu effaith: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Cynnwys

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn 3
   - 1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru? 3
   - 1.2. Deddf Cydraddoldeb 2010 3
   - 1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol? 3

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru 4
   - 2.1. Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol? 4
   - 2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu? 4

3. Asesu am effaith 5

3. Beth mae'r ddyletswydd yn ei ofyn o ran asesu am effaith 5

4. Beth yw 'asesu effaith'? 6

5. Beth sydd angen ei asesu o ran effaith ar grwpiau gwarchodedig? 7

6. Pryd i asesu effaith 8

7. Pwy ddylai asesu effaith? 8

8. Adrodd ynghylch asesiadau 9

9. Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth 9

10. Defnyddio gwybodaeth berthnasol 9

11. Ymgysylltiad wrth asesu effaith 10

12. Hyfforddi staff ac arweinyddiaeth 10

13. Canllawiau pellach ynglŷn ag asesu effaith 11

Atodiad A: Sut i asesu effaith 12
   1. Sefydlu perthnasedd i gydraddoldeb 12
   2. Cwmpasu'r asesiad 13
   3. Dadansoddi gwybodaeth i asesu'r effaith 15
   4. Asesu o ran effaith mewn perthynas â thair nod y ddyletswydd 13
   5. Beth y dylid ei wneud 16
   6. Gwneud penderfyniadau a chyhoeddi 17
   7. Monitro ac adolygu 18

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

Dyddiadau allweddol ar gyfer dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

05.04.11	Dyletswydd gyffredinol yn dod i rym
06.04.11	Dyletswyddau penodol yng Nghymru yn dod i rym
02.04.12	Cyrff rhestredig yng Nghymru i gyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
02.04.12	Rhaid bod cyrff rhestredig yng Nghymru wedi ymgysylltu â phobl â diddordeb fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth berthnasol i asesu eu gweithgareddau yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol. Rhaid cyhoeddi gwybodaeth berthnasol fel y bo'n briodol.

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Daw Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) a deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Mae'n symleiddio a chryfhau'r gyfraith, yn cael gwared ar anghysonderau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â'r gofynion. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus** newydd (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle dyletswyddau unigol ar hil, anabledd a chydraddoldeb rhyw. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisïau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i roi sylw priodol i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

Mae'r canllaw hwn ar adegau yn defnyddio'r ymadrodd 'grŵp gwarchodedig' i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1 Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau anstatudol ar y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw anstatudol wedi ei anelu?

Mae'r canllaw anstatudol wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Asesu am effaith

3.1 Beth mae'r ddyletswydd yn ei ofyn o ran asesu am effaith

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru

- asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith unrhyw bolisi sy'n cael ei adolygu ac unrhyw ddiwygiad arfaethedig
- cyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau os ydynt yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar allu awdurdod i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- monitro effaith polisïau ac arferion ar ei allu i fodloni'r ddyletswydd honno.

Rhaid i adroddiadau ar asesiadau sefydlu'n benodol:

- bwrpas y polisi neu arfer (neu ddiwygiad) sydd wedi ei asesu
- crynodeb o'r camau mae'r awdurdod wedi eu cymryd i gyflawni'r asesiad (yn cynnwys ymgysylltu perthnasol)
- crynodeb o'r wybodaeth mae'r awdurdod wedi ei ystyried yn yr asesiad
- canlyniadau'r asesiad
- unrhyw benderfyniadau a wnaed parthed y canlyniadau hynny.

Yn ogystal, wrth asesu ar gyfer effaith ar grwpiau gwarchodedig, rhaid i awdurdodau rhestredig:

- gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu
- roi sylw dyledus i'r wybodaeth berthnasol sydd gan yr awdurdod.

4. Beth yw ‘asesu effaith’?

Mae’r gofyniad i asesu effaith yn golygu bod yn rhaid i gyrff rhestredig ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisïau ac arferion ar grwpiau a warchodir.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw’r polisi neu’r ymarfer yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau gwarchodedig
- ystyried sut y gallai’r polisi neu’r ymarfer hyrwyddo cyfle cyfartal yn well
- ystyried a fydd y polisi yn effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau.

Ar ôl ystyried hyn, rhaid i gyrff rhestredig roi ‘ystyriaeth ddyledus’ (h.y. rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o’r fath. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig ystyried gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, fel ymdrin ag effeithiau negyddol, lle bo hynny’n bosibl.

5. Beth sydd angen ei asesu o ran effaith ar grwpiau gwarchodedig?

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig asesu effaith 'polisïau ac arferion'. Mae hwn yn ymadrodd bras iawn, a gallai ymdrin â phob agwedd o weithgareddau a swyddogaethau awdurdod cyhoeddus.

Nid yw hyn yn golygu y bydd angen i bopeth y mae awdurdod yn ei wneud gael ei asesu o ran ei effaith ar grwpiau gwarchodedig. Bydd angen i gorff rhestredig farnu sut y gall polisi neu ymarfer arbennig fod yn berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a gweithredu'n gymesur. Bydd corff rhestredig yn cael ei gynorthwyo yn y dasg hon drwy roi ystyriaeth ddyledus i wybodaeth berthnasol y mae wedi ei nodi. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â grwpiau gwarchodedig i fodloni'r gofyniad i asesu sut mae ei waith a'i weithgareddau yn cyfrannu at y ddyletswydd gyffredinol.

Bydd angen i gyrff rhestredig ddal i asesu effaith gweithredu polisi ar grwpiau gwarchodedig pan mae'r polisi hwnnw wedi cael ei ddatblygu gan awdurdod arall, er enghraifft strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Gallai bodloni'r ddyletswydd gynnwys asesu effaith nifer o benderfyniadau a wneir gyda'i gilydd, er enghraifft wrth gynnal adolygiad mawr o wasanaethau, ar grwpiau gwarchodedig. Byddai hyn yn golygu sicrhau bod gan gorff rhestredig ddigon o wybodaeth berthnasol i ddeall effaith gronnus nifer o benderfyniadau.

6. Pryd i asesu effaith

Dylai asesu effaith ar y grwpiau gwarchodedig fod yn rhan anhepgor o ddatblygu ac adolygu polisïau o'r dechrau.

Mae'n bwysig monitro effaith gwirioneddol polisi wrth iddo gael ei weithredu, ac ail-edrych ar asesu effaith ar grwpiau gwarchodedig fel rhan o unrhyw adolygiad.

7. Pwy ddylai asesu effaith?

Dylai pwy bynnag sy'n cyflawni asesiad effaith wneud y canlynol:

- bod â dealltwriaeth fanwl o'r maes polisi
- bod mewn sefyllfa i sicrhau y gall newidiadau gael eu gwneud lle bo hynny'n angenrheidiol
- bod â chefnogaeth ac arweinyddiaeth uwch reolwyr.

Gallai bod â thîm sy'n ymwneud ag asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig helpu i ddod ag ystod o brofiad ac arbenigedd i'r broses. Gallai fod yn ddefnyddiol bod â rhywun gyda chyfrifoldeb dynodedig am gofnodi a datblygu'r asesiad.

Yn aml, mae'n bosibl na fydd gan yr unigolion sy'n ymwneud ag asesiad arbenigedd helaeth ym maes cydraddoldeb. Mae gan staff cydraddoldeb arbenigol rôl bwysig i gefnogi staff llai profiadol i wneud y gwaith o asesu effaith. Yn ddelfrydol, gwneir y gwaith o asesu'r effaith gan staff yr awdurdod yn hytrach na chan ymgynghorwyr neu asiantaethau allanol, oherwydd bydd hyn yn galluogi awdurdodau i ddatblygu eu harbenigedd eu hunain.

8. Adrodd ynghylch asesiadau

Lle mae'n eglur o'r asesiad fod yr effaith tebygol ar allu'r awdurdod i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol yn sylweddol, yna rhaid iddo gyhoeddi adroddiad. Mae angen i'r adroddiad hwnnw gynnwys yr elfennau a ddisgrifiwyd yn y crynodeb o dan Adran 2.1.

9. Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth

Lle mae cyrff rhestredig yn gweithio mewn partneriaeth, er enghraifft mewn Byrddau Gwasanaethau Lleol neu Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, mae'n bwysig ystyried sut i ddatblygu dull a rennir at fodloni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol.

Gallai hyn gynnwys agwedd ar y cyd at asesu sut y gallai gwaith y bartneriaeth effeithio ar grwpiau gwarchodedig. Dylai hyn sicrhau nad oes unrhyw ymdrech yn cael ei dyblygu a bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol.

10. Defnyddio gwybodaeth berthnasol

Mae'n ofynnol i gyrff rhestredig ddefnyddio gwybodaeth berthnasol wrth asesu effaith polisi neu ymarfer sy'n cael ei argymell neu ei adolygu ar grwpiau a warchodir.

Bydd yn bwysig sicrhau bod gan yr holl staff sy'n cyflawni asesiadau drosolwg o'r mathau o wybodaeth sydd gan y corff rhestredig, ac, os yn berthnasol, unrhyw fylchau yn yr wybodaeth honno.

11. Ymgysylltiad wrth asesu effaith

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig fodloni darpariaethau ymgysylltiad fel rhan o asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig.

Bydd hyn yn helpu cyrff rhestredig i ddeall effaith eu hargymhellion ar wahanol grwpiau yn well.

12. Hyfforddi staff ac arweinyddiaeth

Mae'n bwysig hyfforddi staff ynglŷn ag asesu effaith. Dylai hyn fod yn briodol i gyfrifoldebau arbennig y staff, i'w maes gwaith, ac i'r dull y mae'r awdurdod wedi ei ddewis ar gyfer asesu effaith.

Mae'n bwysig fod llunwyr penderfyniadau profiadol mewn awdurdodau cyhoeddus (fel Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau'r Bwrdd) yn cael eu briffio'n ddigonol. Dylai hyn eu paratoi ar gyfer craffu i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn briodol o fewn y sefydliad a bod yr holl asesiadau yn dylanwadu ar y modd y llunnir penderfyniadau ar bob lefel.

13. Canllawiau pellach ynglŷn ag asesu effaith

Mae **Atodiad** A yn cyflwyno dull posibl o asesu effaith ar grwpiau gwarchodedig.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu canllawiau ar asesu effaith, gan gyfeirio'n arbennig at wneud penderfyniadau ariannol teg mewn adegau o doriadau ariannol. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan y Comisiwn yn:

http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty/using-the-equality-duty-to-make-fair-financial-decisions/guidance-for-decision-makers/

Atodiad A: Sut i asesu effaith

Mae'r adran hon yn cyflwyno canllaw cam-wrth-gam ar gyfer asesu effaith polisïau ar grwpiau gwarchodedig. Dull a awgrymir yn unig yw hwn, **nid** proses a ragnodir o dan y ddyletswydd. Dylai awdurdodau ddatblygu dull sy'n gweddu orau i'w strwythurau eu hunain.

1. Sefydlu perthnasedd i gydraddoldeb

1.1 Cymesuredd

Efallai y bydd angen i awdurdodau cyhoeddus flaenoriaethu fel y gallant ganolbwyntio eu hymdrechion a defnyddio eu hadnoddau yn fwyaf effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd gyfredol.

Dylai polisïau hynod berthnasol, fel penderfyniadau cyllidebol strategol, rhaglenni llunio grantiau, newidiadau i gyflenwi gwasanaeth (gan gynnwys dileu neu ad-drefnu gwasanaethau) a pholisïau recriwtio neu dâl bob amser fod yn destun asesiad effaith ar grwpiau gwarchodedig.

Lle nad yw'n ymarferol neu'n gymesur gwneud asesiad effaith ar grwpiau gwarchodedig mewn perthynas â pholisi arbennig, dylid cofnodi'r penderfyniad hwn a dylid darparu rhesymau. Dylech allu dangos tystiolaeth ynghylch y penderfyniadau yr ydych yn eu gwneud.

1.2 Perthnasedd

Er mwyn penderfynu a ddylai polisi gael ei asesu, dylid ystyried perthnasedd i'r ddyletswydd gyffredinol. Os nad yw polisi pwysig yn cael ei asesu oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn anghywir yn amherthnasol, gallai'r awdurdod weithredu penderfyniadau sy'n creu neu sy'n ymestyn anghyfartaledd, ac yn y pen draw fod yn agored i her gyfreithiol.

Gallwch benderfynu fod polisi yn berthnasol i rai, ond nid i bob grŵp gwarchodedig, ac mewn perthynas â rhai, ond nid pob un o dair elfen y ddyletswydd gyffredinol. Yn yr achos hwn, mae'n bwysig fod y rhesymau am y penderfyniad yn cael eu hegluro a'u cofnodi.

1.3 Sgrinio am berthnasedd

Mae llawer o awdurdodau wedi datblygu dull 'sgrinio' i benderfynu a ddylai polisi fod yn destun asesiad ai peidio. Mae sgrinio yn ymarferiad byr, cryno sy'n cynorthwyo i benderfynu ar berthnasedd. Ni ddylid ei ddefnyddio yn lle asesiad priodol. Wedi penderfynu fod asesiad yn briodol, dylai'r sgrinio ddod i ben a dylai'r asesiad ddechrau.

Gallai'r cwestiynau canlynol helpu i nodi perthnasedd. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol. Dylai awdurdodau unigol ystyried pa anogeiriau ('prompts') sy'n fwyaf galluog o nodi perthnasedd o fewn eu cyd-destun arbennig.

- A yw'r polisi yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach (ac felly bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar grwpiau gwarchodedig)? Bydd perthnasedd polisi yn dibynnu nid yn unig ar nifer y rhai a effeithir, ond hefyd ar berthnasedd yr effaith arnynt.
- A yw'n bolisi mawr, yn effeithio'n sylweddol ar sut y cyflenwir swyddogaethau yn nhermau grwpiau gwarchodedig?
- A fydd yn cael effaith sylweddol ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithredu yn nhermau cydraddoldeb (er enghraifft strategaeth genedlaethol neu feini prawf arolygu)?
- A yw'n ymwneud â swyddogaethau y mae gweithgareddau ymgysylltu blaenorol wedi eu nodi fel rhai sy'n bwysig i grwpiau arbennig a warchodir?
- A yw'n ymwneud ag amcanion a chanlyniadau cydraddoldeb eich sefydliad?
- A yw'n ymwneud â maes lle ceir anghydraddoldebau gwybyddus? (Er enghraifft, mynediad pobl anabl at drafnidiaeth gyhoeddus, y bwlch tâl rhwng y ddau ryw, bwlio hiliol neu homoffobig mewn ysgolion ac ati).
- A yw'n ymwneud â pholisi lle ceir potensial sylweddol i gwtogi ar anghyfartaledd neu wella canlyniadau? (Er enghraifft, gwella mynediad i wasanaethau iechyd i bobl trawsrywiol; neu gynyddu nifer y myfyrwyr benywaidd sy'n derbyn prentisiaethau ac ati).
- A yw'n ymwneud â maes lle mae diffyg ymchwil wedi ei gyhoeddi neu dystiolaeth arall?

2. Cwmpasu'r asesiad

2.1 Beth ddylid ei ystyried wrth gwmpasu asesiad?

Wrth ddatblygu polisi newydd, neu adolygu polisi sy'n bodoli'n barod, dylid ystyried cydraddoldeb mor fuan â phosibl. Yn ystod y cam hwn dylid:

- Sefydlu pwrpas y polisi sydd wedi ei asesu
- Cofnodi'r camau yr ydych wedi eu cymryd i asesu'r polisi o ran effaith
- Cadw crynodeb o'r wybodaeth yr ydych wedi ei chymryd i ystyriaeth
- Cofnodi canlyniadau'r asesiad
- Cofnodi'r penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r asesiad.

2.2 Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn ymwneud â chydraddoldeb?

Bydd hyn yn cynnwys deall pwrpas y polisi, y cyd-destun y bydd yn gweithredu o'i fewn, pwy y bwriedir iddo ddod â budd iddo a'r canlyniadau yr anelir atynt.

2.3 Pa agweddau o'r polisi sy'n arbennig o berthnasol i wahanol elfennau o'r ddyletswydd gyffredinol?

Bydd nodi hyn yn helpu i ganolbwyntio ar y meysydd pwysicaf. Efallai y bydd rhai agweddau wedi eu nodi yn barod yn ystod proses sgrinio. Nid yw hyn yn golygu y dylid allgau agweddau eraill o'r asesiad.

Bydd angen ystyried y berthynas rhwng y polisïau. Er enghraifft, lle mae polisi ar ddyrchafiad yn cael ei asesu, efallai y bydd angen ystyried effaith polisïau ar hyfforddiant a datblygu er mwyn cael darlun llawn o unrhyw rwystrau neu gyfleoedd.

Lle mae'r effaith yn mynd y tu hwnt i'r maes y mae'r person(au) sy'n cyflawni'r asesiad yn gyfrifol amdano, dylid dod â phobl eraill gyda gwybodaeth briodol i mewn i'r broses mor fuan â phosibl.

2.4 I ba rai o'r grwpiau gwarchodedig y mae'r polisi yn berthnasol?

Dylai'r asesiad ystyried effaith y polisi ar gyfer pob un o'r grwpiau a warchodir. Efallai y bydd hyn wedi ei benderfynu yn barod drwy gyfrwng proses 'sgrinio' flaenorol. Dylid ystyried amrywiaeth o fewn yn ogystal â rhwng grwpiau: er enghraifft pobl anabl gyda gwahanol amhariadau; pobl o wahanol grwpiau hiliol neu grwpiau o wahanol oed. Os penderfynir nad yw asesiad yn berthnasol i rai grwpiau, dylid cofnodi hyn a'i egluro.

2.5 Pa dystiolaeth sydd ar gael yn barod ynglŷn ag anghenion grwpiau perthnasol a ble mae'r bylchau mewn tystiolaeth?

Mae'n bwysig bod â chymaint o dystiolaeth gyfoes a dibynadwy â phosibl am anghenion a phrofiadau'r gwahanol grwpiau y mae'r polisi yn debygol o'u heffeithio. Efallai fod gennych gronfa o wybodaeth gyffredinol i dynnu arni, fel gwybodaeth ddemograffig, data monitro ar lefel gwasanaeth ac argymhellion o adroddiadau archwilio ac arolygu. Efallai y bydd angen ychwanegu at hyn ar gyfer y polisi penodol o dan ystyriaeth.

Efallai y bydd yn anodd canfod yr wybodaeth angenrheidiol am grwpiau arbennig. Lle nad oes digon o wybodaeth dylid gweithredu'n briodol i lenwi bylchau o'r fath, fel cynnwys grwpiau perthnasol.

Lle nad yw'n bosibl casglu gwybodaeth newydd mewn pryd i oleuo'r asesiad, dylech ystyried cynnwys unrhyw gamau o'r fath yn eich cynlluniau i fonitro ac adolygu'r polisi. Ni ddylid fyth ddefnyddio diffyg tystiolaeth fel rheswm dros beidio â gweithredu.

2.6 Pa gymunedau a grwpiau y gallai fod yn ddefnyddiol ymgysylltu â nhw wrth ddatblygu'r polisi?

Cyn cyflawni gweithgareddau ymgysylltu arbennig, dylech edrych yn gyntaf ar ddata o ymgynghoriadau, ymgysylltu ac ymchwil diweddar. Gallai hyn fod ynghylch polisi cysylltiedig diweddar neu asesiadau diweddar a wnaed gan gydweithwyr. Gallai hyn helpu i greu hyder ymysg grwpiau a chymunedau, sy'n gallu gweld y gweithredir ynghylch yr hyn y maent wedi ei ddweud.

3. Dadansoddi gwybodaeth i asesu'r effaith

Mae angen i'r dystiolaeth a gasglwyd gael ei dadansoddi a'i chymhwyso at y polisi wrth iddo gael ei ddatblygu neu ei adolygu. Dylech lunio barn yn ystod pob cam o'r broses ynglŷn â beth fydd yr effaith debygol ac ystyried a oes angen newidiadau i'r polisi dan sylw.

Mae'r ddyletswydd yn cynnwys ystyried a yw'r dystiolaeth yn nodi bod gwahanol effaith ar grwpiau arbennig, ac yn arbennig a yw'r effaith hon yn anghymesur o negyddol.

Mewn asesiad, anaml y mae'n dderbyniol nodi y bydd polisi yn dod â budd/anfantais gyffredinol i bawb, ac felly y bydd unigolion o grwpiau gwarchodedig yn cael eu heffeithio'n gyfartal. Dylai'r dadansoddiad fod yn gadarnach na hyn, gan ddangos ystyriaeth i'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac ymdrin ag unrhyw fylchau neu wahaniaethau a ddaw i'r golwg. Bydd angen camau penodol weithiau er mwyn ymdrin ag anfantais sy'n bodoli neu fodloni anghenion gwahanol.

Er enghraifft, bydd angen i bolisi ar ymdrin â thrais sy'n seiliedig ar rywedd asesu ei effaith bosibl ar gymunedau a lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â phobl hoyw ac anabl. Bydd asesiad effeithiol o effaith ar grwpiau a warchodir yn helpu i sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw anghenion arbennig ac effeithiau ehangach tebygol gweithredu'r polisi.

Bydd angen i bolisïau y bwriedir iddynt gynyddu cyfle cyfartal gael eu hystyried i sicrhau eich bod yn hyderus bod y polisi yn gyfreithiol ac y bydd yn cyflawni'r cyrchnodau cydraddoldeb a fwriadwyd. Efallai y bydd angen camau i wrthsefyll unrhyw ddicter neu ganfyddiad ynglŷn â thriniaeth fwy ffafriol ymysg cymunedau a grwpiau eraill. Byddai hyn yn ystyriaeth bwysig yn nhermau elfen 'cysylltiadau da' y ddyletswydd gyffredinol.

4. Asesu o ran effaith mewn perthynas â thair nod y ddyletswydd

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith polisïau ar allu eich awdurdod i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Golyga hyn y dylech benderfynu a fydd polisi yn cynorthwyo neu yn amharu ar eich gallu i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Yn ôl y dyletswyddau penodol yng Nghymru nid oes angen i bolisïau neu arferion presennol gael eu hasesu oni bai eu bod yn cael eu hadolygu neu eu diwygio. Mae polisïau presennol yn cael eu monitro.

4.1 Dileu gwahaniaethu

Wrth ystyried a yw'r polisi yn dileu gwahaniaethu, dylech ystyried a oes tystiolaeth i nodi:

- y gallai'r polisi arwain at driniaeth lai ffafriol i grwpiau arbennig
- y gallai'r polisi arwain at wahaniaethu anuniongyrchol
- mae'r polisi yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo neu eich rhwystro wrth wneud addasiadau rhesymol.

4.1.1 Hyrwyddo cyfle cyfartal

Wrth benderfynu sut mae'r polisi yn cyfrannu at hyrwyddo cyfle cyfartal, dylech ystyried a fydd yn eich helpu i wneud y canlynol:

- dileu anfantais neu gadw anfantais i isafswm
- bodloni anghenion gwahanol grwpiau, ac
- annog mwy o gyfranogiad gan grwpiau arbennig.

4.1.2 Cysylltiadau da

Wrth benderfynu sut fydd y polisi yn effeithio ar gysylltiadau da, dylech ystyried a fydd yn eich helpu i wneud y canlynol:

- taclo rhagfarn, a
- hyrwyddo dealltwriaeth.

Efallai bydd nodi'r effaith ar y grwpiau a warchodir yn haws wrth adolygu polisïau presennol, oherwydd eich bod yn fwy tebygol o fod â rhywfaint o wybodaeth neu ddata am sut y mae'r polisi wedi gweithredu yn ymarferol. Ar gyfer polisïau newydd, bydd angen i chi wneud asesiad gofalus am yr effaith bosibl, yn seiliedig ar dystiolaeth. Dylid barnu'r polisi yn erbyn yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd, a gwneud barn resymol ynglŷn ag yw'r polisi wedi cael neu'n debygol o gael canlyniadau cadarnhaol neu negyddol sylweddol i grwpiau neu gymunedau arbennig.

5. Beth y dylid ei wneud

Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi yn benodol roi ystyriaeth ddyledus, neu roi pwysau priodol, ar ganlyniadau eich asesiad. Ar ôl ystyried yr effaith bosibl neu wirioneddol ar grwpiau a warchodir, dylech fod mewn sefyllfa i ffurfio barn oleuedig ynglŷn â beth ddylid ei wneud. Mae **pedwar o brif gamau** y gallwch eu cymryd:

Dewis 1: Dim newid mawr - mae eich asesiad yn dangos bod y polisi yn gadarn. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad oes unrhyw bosibilrwydd o wahaniaethu a'ch bod wedi manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da, cyn belled ag y boch yn parhau i wneud gwaith monitro ac adolygu. Os deuwch i'r casgliad hwn, dylech gofnodi'r rhesymau pam a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ei gefnogi eich penderfyniad.

Dewis 2: Addasu'r polisi - mae hyn yn cynnwys cymryd camau i ddileu unrhyw rwystrau, hyrwyddo cydraddoldeb yn well neu feithrin cysylltiadau da. Efallai y bydd yn bosibl dileu neu newid yr agwedd o'r polisi sy'n creu unrhyw effaith negyddol neu ddiangen. Gallwch benderfynu cyflwyno mesurau ychwanegol i gwtogi ar neu liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl.

Mae'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb trin pobl yn wahanol mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft cymryd camau cadarnhaol neu roi darpariaeth un rhyw yn ei lle lle mae angen amdano. Mae'n gyfreithiol ac yn un o ofynion y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i ystyried a oes angen trin pobl anabl yn wahanol, gan gynnwys rhoi triniaeth fwy ffafriol lle bo hynny'n angenrheidiol.

Mae angen i effaith unrhyw newidiadau gael eu deall a'u hasesu'n llawn i sicrhau nad oes ganddynt unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd ac y gallant gyflawni'r effaith a ddisgwyliwyd.

Dewis 3: Parhau â'r polisi - mae hyn yn golygu eich bod yn mabwysiadu neu'n parhau gyda'r polisi, er gwaethaf y potensial o effaith niweidiol neu gyfleoedd a gollir i hyrwyddo cydraddoldeb. Fel rhan o'r asesiad am effaith, dylech gyflwyno'r cyfiawnhad dros wneud hyn yn glir, a rhaid i hyn fod yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus. Mewn achosion lle credwch nad yw gwahaniaethu yn anghyfreithlon oherwydd y gellir ei gyfiawnhau yn wrthrychol, mae'n arbennig o bwysig eich bod yn cofnodi beth yw'r cyfiawnhad gwrthrychol dros barhau â'r polisi, a sut y daethoch i'r penderfyniad hwn.

Dewis 4: Atal a dileu'r polisi - os oes effeithiau niweidiol na ellir eu cyfiawnhau ac na ellir eu lliniaru, dylech ystyried atal y polisi yn gyfan gwbl. Os yw polisi yn dangos gwahaniaethau anghyfreithlon rhaid ei ddileu neu ei newid. I gael canllawiau ynglŷn â beth sy'n wahaniaethu anghyfreithlon, cyfeiriwch at ganllawiau'r Comisiwn a'r Codau Ymarfer ar elfennau cyflogaeth, nwyddau a gwasanaethau a chyflog cyfartal y Ddeddf Cydraddoldeb, sydd ar gael ar ein gwefan.

Ar ôl penderfynu ar yr effaith bosibl ar grwpiau gwarchodedig a nodi'r camau angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw broblemau sydd wedi codi, rhaid i awdurdodau fynd ati wedyn i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol. Efallai y bydd yn ddefnyddiol datblygu cynllun gweithredu sy'n cyflwyno'r camau a nodwyd; yr unigolion sy'n gyfrifol am weithredu'r camau, a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Yna bydd yn rhaid i ganlyniad yr asesiad a'r rhesymau amdano gael eu dwyn i sylw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, os nad y sawl sy'n asesu'r polisi yw hwn.

6. Gwneud penderfyniadau a chyhoeddi

Yn achos polisi newydd, mae llunio penderfyniadau yn debygol o ganolbwyntio ar a ddylid mabwysiadu'r polisi ac ar werthuso dewisiadau o fewn cynnig y polisi. Ar gyfer polisi sy'n bodoli'n barod, efallai mai'r penderfyniad fydd penderfynu a oes angen ei ddiwygio, ac i bolisi sydd eisoes yn cael ei ddiwygio, efallai y bydd yn ymwneud â ffurf y diwygiadau hynny.

Bydd penderfyniadau yn cynnwys cydbwyso gofalus a gallant yn y pen draw fod y dewis gorau rhwng gwahanol fuddiannau. Er enghraifft, os yw'r asesiad yn awgrymu y gallai dau neu fwy o grwpiau gael eu heffeithio'n niweidiol gan gynnig, a bod anghenion y grwpiau yn gwrthdaro â'i gilydd, bydd angen dod o hyd i gydbwysedd priodol i'r grwpiau a'r polisi dan sylw. Wrth gydbwyso buddiannau o'r fath mae'n bwysig ystyried sut y bydd y penderfyniad yn effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau, fel sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd gyffredinol. Mae'n bwysig sicrhau y gall y casgliadau a daethpwyd iddynt gael eu hegluro, yn arbennig lle gellir dehongli'r dystiolaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Mae cofnodi eich asesiad yn bwysig i sicrhau y bodlonir y dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Honnwyd yn *R (Kaur and Shah) v Bwrdeistref Ealing yn Llundain:*

> 'The process of assessments should be recorded... records contribute to transparency. They serve to demonstrate that a genuine assessment has been carried out at a formative stage. They further tend to have the beneficial effect of disciplining the policy-maker to undertake the conscientious assessment of the future impact of [his/her] proposed policy.'[1]

Yn dilyn penderfyniad sy'n dangos fod yr effaith neu'r effaith tebygol yn cael effaith sylweddol ar eich gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol, dylech roi cyhoeddusrwydd i ganlyniad yr asesiad. Mae'n bwysig fod awdurdodau cyhoeddus yn gwneud eu hasesiad yn gyhoeddus, er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol.

7. Monitro ac adolygu

Nid yw asesu ar gyfer effaith ar grwpiau a warchodir yn diweddu gyda chyflwyno'r polisi newydd neu ddiwygiedig. Yn arbennig gyda pholisïau newydd, bydd asesiad wedi helpu i ragweld effeithiau tebygol y polisi ar wahanol gymunedau a grwpiau. Y realiti yw y bydd effaith wirioneddol y polisi yn wybyddus dim ond wedi iddo gael ei gyflwyno a'i weithredu.

Nid yw'n ddigon gwneud y newidiadau a ddisgwylir i ddileu effaith niweidiol neu hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'n rhaid defnyddio prosesau monitro, gwerthuso ac adolygu i sicrhau bod yr effaith wirioneddol yn cyfateb i'r effaith a ragwelwyd, a bod camau perthnasol wedi eu gweithredu.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys gofyniad i fonitro effaith.

1 *R (Kaur and Shah) v Bwrdeistref Ealing yn Llundain [2008] EWHC 2026* (Admin).

Cysylltwch â ni

Cymru

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Llawr 3, 3 Sgwâr Callaghan, Caerdydd CF10 5BT

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Arndale House, Arndale Centre, Manceinion M4 3AQ

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Llinell gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

The Optima Building, 58 Robertson Street, Glasgow G2 8DU

Llinell gymorth:

Prif rif ffôn:
0845 604 55 10

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:

Dydd Llun i ddydd Gwener: 8am–6pm

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â'r llinell gymorth berthnasol i drafod eich anghenion. Gallwch lwytho pob cyhoeddiad i lawr hefyd a'u harchebu mewn amrywiaeth bo fformatau o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Ebrill 2011
ISBN 978 1 84206 417 7

Gwaith celf gan Epigram
www.epigram.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission